2012

Proses Sengl o Dderbyn ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Uwchraddedig i Athrawon - **Dogfen ymgynghori**

Ionawr 2012

gttr

Gofrestrfa Hyfforddi Athrawon Graddedig

Cynnwys

Rhagair 2

Adran I

1. Pwrpas 4
2. Golwg gyffredinol ar y system gyfredol o dderbyn 5
3. Tystysgrif Uwchraddedig mewn Addysg (PGCE) 5
4. Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) 6

Adran II

5. Sail resymegol dros ddiwygio 7
6. Systemau gwneud cais gwahanol 7
7. Gwybodaeth ynghylch y llwybrau gwahanol 8
8. Yr amser a gymerir gan ddarparwyr i ddod i benderfyniadau 9
9. Y system GTTR ddilyniannol gyfredol 10
10. Mae diffyg gweledd ar ddarparwyr 11
11. Darparwyr sy'n cynnig mwy nag un llwybr ITT 12

Adran III

12. Cynigion ar gyfer diwygio 13
13. Gwelliannau dros dro 13
14. Proses sengl o dderbyn: model 2014 14
15. Amserlen y broses 16
16. Atebion 17
17 Buddion allweddol y newidiadau arfaethedig 18

Adran IV

18. Geirfa 19

Adran V

19. Sut i ateb 20

Rhagair

Mae ansawdd addysgu wrth galon system addysg effeithiol ac yn llwyr hanfodol i lwyddiant a sefydlogrwydd cymdeithas. Mae athrawon ysbrydoledig yn trosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd er mwyn paratoi pobl ifanc i fod yn ddysgwyr llwyddiannus, yn unigolion hyderus ac yn ddinasyddion cyfrifol sy'n gallu gwneud cyfraniad effeithiol i gymdeithas. Mae hon yn un o'r swyddi mwyaf heriol sydd ar gael i raddedigion ond mae'n un o'n rhai sy'n rhoi'r boddhad mwyaf, yn ogystal. Ni ellir gorbwysleisio dylanwad athrawon rhagorol ar fywyd ein cenedl.

Oherwydd hyn, mae'n hanfodol ein bod yn denu ymgeisiwyr o'r safon uchaf i yrfa mewn addysgu a'n bod yn gallu canfod y rheiny sy'n berchen ar y nodweddion a'r priodoleddau personol a fydd yn eu gwneud yn athrawon rhagorol. Mae rhagoriaeth academaidd yn allweddol ond nid dyma'r unig faen prawf. Rhaid i ni fedru denu a chanfod y rheiny a allant gymell, creu brwdfrydedd ac ysbrydoli.

Mae'r broses ar gyfer dethol ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau hyfforddi cychwynnol i athrawon yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn. Mae angen i ni fod â phroses sy'n ddidrafferth i'r ymgeisydd ei defnyddio gyda'r gallu i adlewyrchu, ar yr un pryd, y cymhlethdodau sy'n ofynnol er mwyn caffael gweithlu addysgu tra-effeithiol ac amrywiol.

Daw athrawon arfaethedig o ystod eang o gefndiroedd. Bydd rhai ohonynt wedi llwyddo eisoes mewn gyrfaoedd eraill; bydd rhai'n raddedigion newydd sydd wedi dyheu ers tro byd am yrfa mewn addysgu; gall rhai fod yn gweithio eisoes mewn ysgol fel cynorthwy-ydd addysgu. Gellir bodloni anghenion y grŵp amrywiol hwn yn unig trwy fod yn berchen ar fodelau cyflawni gwahanol ar gyfer hyfforddiant uwchraddedig i athrawon. Bydd rhai'n dymuno cwrs wedi'i seilio ar brifysgol neu goleg tra bydd eraill, efallai, eisiau dull mwy ymarferol, gweithredol, wedi'i seilio mewn ysgol.

Mae'r systemau cyfredol ar gyfer gwneud cais am hyfforddiant uwchraddedig i athrawon wedi esblygu dros amser er mwyn cwrdd ag anghenion newidiol ymgeiswyr ac ysgolion. Mae'r ddau brif lwybr, sef y cwrs blwyddyn ar gyfer y rheiny sydd eisoes yn raddedigion, wedi'i seilio naill ai mewn prifysgol neu ysgol, a'r Rhaglen Athrawon Graddedig a seilir ar gyflogaeth, wedi datblygu'n annibynnol.

Ceir dwy broses wahanol ar gyfer derbyn, gyda'r gyntaf wedi'i rheoli gan UCAS trwy'r Gofrestrfa Hyfforddi Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Athrawon Graddedig a reolir yn uniongyrchol gan ddarparwyr ac a oruchwylir gan yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion. Dywed ymgeiswyr wrthym bod hyn yn eu drysu ac mae darparwyr yn pryderu nad yw'n llwyddo i baru ymgeiswyr â chyrsiau a lleoliadau ysgol yn y dull gorau.

Oherwydd hyn, bu UCAS a'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion yn adolygu'r prosesau ar gyfer gwneud cais am hyfforddiant uwchraddedig i athrawon. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno model er mwyn creu proses sengl o dderbyn wedi'i rheoli gan UCAS ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer y rheiny sydd eisoes wedi graddio. Credwn fod hyn yn cynrychioli cyfle gwirioneddol i ail-lunio'r broses gan greu un sy'n fwy effeithlon, sy'n rhoi profiad gwell i ymgeiswyr ac sy'n sicrhau y gellir recriwtio'r athrawon arfaethedig gorau posibl ar gyrsiau sy'n gwneud yn siŵr eu bod yn caffael y sgiliau i addysgu ein plant yn llwyddiannus.

Y bobl sydd â'r ddealltwriaeth orau o'r pynciau hyn yw'r darparwyr, mewn prifysgolion, colegau ac ysgolion. Cyflwynwn yr adroddiad hwn gan wybod bod nifer fawr o gwestiynau yn dal heb eu hateb ac yr ydym yn awr yn croesawu mewnbwn oddi wrth bawb sydd â diddordeb mewn neu brofiad o ddarparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Ni ddaethpwyd i unrhyw benderfyniadau ond rydym yn cyflwyno model a fedrai symleiddio'r broses a gwella safonau'r alwedigaeth addysgu, sydd eisoes yn uchel. Mae angen eich mewnbwn chi arnom yn awr er mwyn deall ei gryfderau ei wendidau a sut gallwn ei wella.

Diolch i chi am eich diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn. Croesawn eich barnau ynghylch sut gallwn gydweithio er mwyn caffael y broses fwyaf effeithiol ar gyfer recriwtio'r bobl gywir i'r alwedigaeth hynod bwysig hon.

Martin Thompson
Aelod Ymgynghorol o'r Bwrdd GTTR

Adran I

1. Pwrpas

1.1. Ym Medi 2010, cadarnhaodd Bwrdd UCAS strategaeth gorfforaethol newydd, a oedd yn cynnwys arolwg sylfaenol o brosesau derbyn israddedig ac uwchraddedig, ac ar hyn o bryd mae UCAS yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r broses o dderbyn ar gyfer cyrsiau israddedig yn y DU.

1.2. Fel rhan o'r arolwg, ac fel ymateb i Bapur Gwyn yr Adran Addysg *Hyfforddi ein cenhedlaeth nesaf o athrawon rhagorol* (Mehefin 2011), bu UCAS yn gweithio'n ogystal mewn partneriaeth gyda'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA) er mwyn ystyried y prosesau ar gyfer gwneud cais i gyrsiau mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon (ITT). Gellir dilyn y rhain naill ai ar lefel israddedig neu uwchraddedig. Rheolir derbyniadau i gyrsiau ITT israddedig trwy UCAS trwy gyfrwng yr un broses ag a ddefnyddir ar gyfer pob derbyniad arall i gwrs israddedig ac maent yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad cyfredol.

1.3. O ran derbyniadau uwchraddedig, mae UCAS yn rheoli'r Gofrestrfa Hyfforddi Athrawon Graddedig (GTTR), gwasanaeth derbyn sy'n prosesu dros 50,000 o geisiadau bob blwyddyn am gyrsiau hyfforddiant uwchraddedig amser llawn a rhan-amser i athrawon:

- yn y rhan fwyaf o brifysgolion, colegau addysg uwch a chonsortia hyfforddiant cychwynnol i athrawon wedi'i seilio mewn ysgolion (SCITT) yn Lloegr
- yn y rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau addysg uwch yng Nghymru
- mewn bron pob sefydliad addysg uwch (HEIs) yn yr Alban.

1.4. Bydd ymgeiswyr sy'n dilyn cyrsiau yn y cynllun GTTR yn ennill y Statws Athro Cymwys (QTS) sy'n angenrheidiol er mwyn addysgu yn ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr neu'r Cymhwyster Addysgu (TQ) sy'n ofynnol er mwyn addysgu yn ysgolion yr Alban. Mae llawer o ysgolion yn y sector annibynnol hefyd yn mynnu bod gan eu hathrawon QTS neu'r TQ, er nad yw hyn yn un o ofynion y llywodraeth.

1.5. Ar hyn o bryd nid yw'r GTTR yn prosesu ceisiadau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant i athrawon mewn unrhyw brifysgolion na cholegau yng Ngogledd Iwerddon.

1.6. Bydd y TDA'n rheoli'r broses o wneud cais yn Lloegr ar gyfer y Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) sy'n galluogi graddedigion i ennill QTS wrth weithio fel athro heb gymhwyster.

1.7. Nid yw darparwyr GTP yn gweithredu yn yr un dull yng Nghymru. Gwneir ceisiadau ar gyfer ITT ar sail cyflogaeth i Gynulliad Llywodraeth Cymru.

1.8. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ac ymgynghori ynghylch model arfaethedig er mwyn creu proses sengl o dderbyn ar gyfer cyrsiau hyfforddiant uwchraddedig i athrawon. Byddai hwn yn cael ei reoli gan UCAS a byddai ar gael i ddarparwyr yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Amcanion y diwygiad hwn fyddai:

- darparu proses wedi'i symleiddio ar gyfer caffael gwybodaeth a gwneud cais am raglenni addysgu uwchraddedig
- cefnogi pob darparwr wrth iddynt reoli lleoedd trwy ddarparu mwy o eglurder ac amlygrwydd ynghylch ceisiadau
- cael gwared ar y materion aneffeithlon ar gyfer y darparwyr hynny sy'n gorfod gweithio drwy systemau amryfal
- sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu paru'n well â'r cyrsiau hyfforddiant uwchraddedig i athrawon sydd fwyaf addas ar eu cyfer nhw.

1.9. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ac ymgynghori ynghylch model arfaethedig er mwyn creu proses sengl o dderbyn ar gyfer cyrsiau hyfforddiant uwchraddedig i athrawon. Cawsai hyn ei reoli gan UCAS a byddai ar gael i ddarparwyr yng Nghymru, Lloegr , yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nod y diwygiad hwn fyddai:

- darparu proses wedi'i symleiddio er mwyn caffael gwybodaeth a gwneud cais am raglenni addysgu uwchraddedig
- darparu cynhorthwy i bob darparwr wrth reoli lleoedd trwy roi mwy o eglurder ac amlygrwydd ynghylch ceisiadau
- cael gwared ar y materion aneffeithlon ar gyfer y darparwyr hynny sy'n gorfod gweithio drwy systemau amryfal
- sicrhau fod ymgeiswyr yn cael eu paru'n well â'r cwrs hyfforddiant uwchraddedig i athrawon sydd fwyaf addas ar eu cyfer nhw.

1.10. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r broses o drefnu derbyniad i gyrsiau hyfforddiant uwchraddedig i athrawon. Ni fydd yn effeithio ar gynnwys na sut y darparir y cyrsiau nac ar unrhyw gynhorthwy ariannol sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'n ymateb amserol i Bapur Gwyn yr Adran Addysg ***Hyfforddi ein cenhedlaeth nesaf o athrawon rhagorol*** (Mehefin 2011) a'i ***Gynllun gweithredu*** (Tachwedd 2011), a:

- alwodd am system i'w gwneud yn haws i wneud cais am hyfforddiant i athrawon
- ofynnodd am ddatblygu dewisiadau ar gyfer system sengl o wneud cais am bob cwrs
- nododd hyd yr amser a gymerir er mwyn prosesu ceisiadau dewis cyntaf a'r nacâd canlyniadol o ail ddewis ystyrlon fel problemau pwysig yn y system gyfredol.

1.11. Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw newidiadau polisi a sicrhau bod pob rhan o'r system yn gyflin. Mae'r model a gynigir yn hyblyg iawn a gall ymaddasu i unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol.

1.12. Dymunwn ymgynghori'n eang ynghylch y cynigion hyn, ac rydym yn croesawu adborth oddi wrth ymgeiswyr, ymgeiswyr posibl, pob math o ddarparwyr, ysgolion ac athrawon sy'n ymwneud mewn unrhyw ddull â hyfforddiant uwchraddedig i athrawon.

1.13. Mae'r ymgynghoriad ar agor hyd at 21 Mawrth 2012. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein bydd UCAS yn parhau i gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb gyda grwpiau o randdeiliaid. Dadansoddir pob ateb i'r ymgynghoriad yn ofalus a chyflwynir adroddiad i Fwrdd Ymgynghorol y GTTR a byrddau UCAS. Ni chyhoeddir atebion unigol i'r ymgynghoriad ond cyhoeddir adroddiad cyfunol erbyn diwedd Mai 2012.

1.14. Plannir holl gwestiynau'r ymgynghoriad ym mhrif gorff y testun yn yr adran y maent yn cyfeirio ati. Gobeithiwn y bydd hyn o gymorth i chi wrth i chi ystyried eich atebion. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn www.gttr.ac.uk/aboutus/review ymhle gallwch ganfod cyfarwyddiadau llawn ynghylch sut i ateb.

2. Golwg gyffredinol ar y system gyfredol o dderbyn

2.1. Mae QTS (neu TQ yn yr Alban) yn ofynnol er mwyn gweithio fel athro/athrawes mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth. Gall graddedigion sy'n dymuno ennill QTS wneud hynny drwy astudio mewn prifysgol neu goleg, gan dreulio amser ar ymarfer dysgu mewn ysgolion, neu drwy weithio mewn ysgol fel athro/athrawes heb gymhwyster. Bydd llawer yn ennill cymhwyster, y Dystysgrif Uwchraddedig mewn Addysg (PGCE) neu'r Diploma Uwchraddedig mewn Addysg (PGDE) yn yr Alban yn ogystal â QTS; bydd eraill yn mynd yn syth ymlaen i QTS.

2.2. Ar hyn o bryd gellir dilyn nifer o lwybrau er mwyn ennill QTS neu'r TQ, ac o'r rhain y ddau brif lwybr yw drwy'r GTTR ar gyfer Lloegr, Cymru a'r Alban a'r GTP yn Lloegr.

2.3. Yn 2010 enillodd 26,050 o ymgeiswyr le drwy'r GTTR, 4,864 ar gyfer y GTP a dim ond 992 ar gyfer bob llwybr arall. Gan mai'r rhain yw'r llwybrau a ddefnyddir gan y mwyafrif helaeth o'r rheiny sy'n ymuno â'r alwedigaeth, bydd yr ymgynghoriad hwn yn ffocysu ar ddulliau o wella'r broses o wneud cais ar gyfer y PGCE, y PGDE yn yr Alban a'r GTP.

2.4. Mae ymgeisio am hyfforddiant uwchraddedig i athrawon yn gystadleuol dros ben. Yn 2010 cafwyd 97,000 o geisiadau am gyfanswm o 30,914 o leoedd ar gyrsiau PGCE, PGDE a GTP.

3. Tystysgrif Uwchraddedig mewn Addysg (PGCE)

3.1. Y llwybr PGCE (PGDE yn yr Alban) yw'r un mwyaf traddodiadol ac mae wedi bodoli am dros 40 mlynedd ar ei ffurf gyfredol.

3.2. Fel rheol gwneir ceisiadau ar gyfer cyrsiau PGCE neu PGDE trwy'r GTTR, a weinyddir gan UCAS. Cynigir lleoedd mewn prifysgolion a cholegau a chyda consortia SCITT sydd wedi dewis bod yn aelodau o'r GTTR.

3.3. I gychwyn mae'r GTTR yn caniatáu i ymgeiswyr ddethol uchafswm o bedwar o gyrsiau, gan gynnwys dim mwy na dau gwrs addysgu cynradd. Ystyrir y rhain gan un darparwr ar y tro yn nhrefn dewis yr ymgeisydd. O ganlyniad i natur y broses ddilyniannol hon a'r gymhareb rhwng ymgeiswyr a lleoedd, ni chaiff ymgeiswyr eu hystyried bob amser gan bob un o'u dewisiadau.

3.4. Gellir gwneud ceisiadau o ddechrau Hydref ymlaen. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer cyrsiau ysgolion cynradd erbyn 1 Rhagfyr er mwyn caffael sicrwydd y cânt eu hystyried yn newis cyntaf yr ymgeisydd. Nid oes unrhyw derfyn amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer cyrsiau blynyddoedd canol, uwchradd neu addysg bellach er mwyn caffael sicrwydd y cânt eu hystyried.

Gall ymgeiswyr wneud cais am unrhyw gyrsiau yn y cynllun GTTR sydd â lleoedd gwag hyd at ddiwedd y cylch ymgeisio yn Hydref y flwyddyn ganlynol.

3.5. Gall darparwyr ddod i'r penderfyniadau canlynol:

- Cynnig amodol
- Cynnig diamod
- Cais aflwyddiannus
- Caewyd y cwrs
- Cadarnhad gohiriedig
- Tynnu'r dewis yn ôl (weithiau ar gais yr ymgeisydd)

3.6. O fewn rheolau'r GTTR, mae gan ddarparwyr 28 diwrnod o dderbyn cais i wahodd yr ymgeisydd i fynychu cyfweliad a 28 diwrnod pellach i ddod i benderfyniad. Fodd bynnag, nid yw'r 28 diwrnod yn dyfod yn gymwys tan ar ôl y dyddiad terfyn ar 1 Rhagfyr. Gall darparwyr, yn ogystal, 'atal' cais os ydynt yn teimlo, am unrhyw reswm, nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu amser i ddod i benderfyniad.

3.7. Os nad yw ymgeisydd yn llwyddo yn unrhyw un o'u dewisiadau cychwynnol, gallant naill ai wneud dewisiadau ychwanegol hyd at yr uchafswm a ganiateir, gwneud set newydd o ddewisiadau neu wneud cais i un darparwr ar y tro, trwy Extra neu Clearing. Mae'r opsiwn sy'n gymwys yn dibynnu ar faint o ddewisiadau y mae ymgeisydd wedi'u gwneud i gychwyn a'r amser o fewn y cylch ymgeisio. Os caiff cais ei atal, gall ymgeiswyr ddewis parhau gyda'u cais i'r darparwr hwn neu ei dynnu nôl a gofyn i'w cais gael ei anfon at ddarparwr gwahanol.

4. Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP)

4.1. Rhaglen yng Nghymru a Lloegr yw'r GTP ar gyfer graddedigion sy'n dymuno ennill QTS wrth gael eu cyflogi mewn ysgol fel athro/athrawes heb gymhwyster. Mae'r rhaglen wedi bodoli ers 1998 a chyfyngwyd arni'n wreiddiol i ymgeiswyr dros 24 oed, er i'r cyfyngiad ar oedran gael ei ddileu yn 2004.

4.2. Gwneir ceisiadau i GTPs yn Lloegr trwy wefan y TDA, ond mae hyn yn gweithredu fel porth yn unig; mae pob cyfathrebiaeth arall rhwng yr ymgeisydd a darparwr yr hyfforddiant. Rhaid i ymgeiswyr ddewis darparwr hyfforddiant ac, mewn rhai achosion, rhaid iddynt ennill lle mewn ysgol sy'n cyflogi cyn gwneud cais. Fel rheol mae darparwyr hyfforddiant GTP yn recriwtio ymhell cyn dyddiadau cychwyn y rhaglen ac mae dyddiadau terfyn a phrosesau ymgeisio'n amrywio o un darparwr i'r llall. Gall ymgeiswyr wneud cynifer o geisiadau ag y dymunant ar yr un pryd ac mae'n rhaid iddynt wneud cais ar wahân i bob darparwr GTP lle maent eisiau cael eu hystyried. Nid yw darparwyr GTP yn gwybod p'un ai yw ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn ogystal ar gyfer GTPs gan ddarparwyr eraill.

4.3. O Fedi 2011 gwellwyd y porth hwn er mwyn darparu gwybodaeth gyflawn ar gyrsiau a chaniatáu i ymgeiswyr wneud cais am y GTP yn uniongyrchol.

Adran II

5. Sail resymegol dros ddiwygio

5.1. Mae'r systemau gwneud cais cyfredol ar gyfer hyfforddiant uwchraddedig i athrawon wedi esblygu dros amser er mwyn bodloni anghenion newidiol ymgeiswyr ac ysgolion. O ganlyniad, maent wedi dyfod yn amrywiol a gallant achosi dryswch a rhwystredigaeth i ymgeiswyr. Gallant greu anawsterau a bod yn aneffeithlon ar gyfer darparwyr yn ogystal, yn arbennig y rheiny sy'n gorfod defnyddio systemau amryfal, a cheir pryderon nad ydynt mwyach yn gydnaws â chyflawni'r dull gorau o baru ymgeiswyr â'r lleoedd sydd ar gael.

5.2. Yn ei Bapur Gwyn *Hyfforddi ein cenhedlaeth nesaf o athrawon rhagorol*, bwriad datganedig y Llywodraeth oedd i'w gwneud yn haws i wneud cais am ITT. Yr ateb a gynigiwyd oedd ystyried dewsiadau er mwyn darparu system sengl ar gyfer ceisiadau i bob cwrs. Yn y Cynllun gweithredu, cydnabu'r gwaith a wnaethpwyd gan y TDA ac UCAS wrth ddatblygu'r cynnig hwn.

Ymgeiswyr

6. Mae systemau ymgeisio gwahanol ar gyfer pob llwybr hyfforddiant yn golygu bod yn rhaid i ymgeiswyr sydd eisiau gwneud cais i fwy nag un llwybr hyfforddiant uwchraddedig i athrawon wneud o leiaf ddau gais gwahanol trwy systemau ar wahân.

6.1. Gall PGCE fod wedi'i seilio naill ai mewn prifysgol neu goleg neu mewn ysgol gyda chonsortiwm SCITT. Nid yw'n daledig yn y naill achos na'r llall er bod bwrsariaethau ar gael ar gyfer pynciau sy'n brin, gyda chynlluniau i'w cynyddu. Tra gwneir y rhan fwyaf o geisiadau trwy'r GTTR, gwneir rhai trwy'r GTP.

6.2. Seilir GTPs mewn ysgolion. Penodir cyfranogwyr i swydd am dâl o fewn yr ysgol fel athro/athrawes heb gymhwyster. Maent yn dilyn rhaglen hyfforddi unigol sy'n arwain at QTS ar y cyd â phartneriaid, fel rheol prifysgolion, colegau, awdurdodau lleol neu gwmnïau addysgol preifat. Gall rhai gael y cyfle i ennill PGCE yn ogystal â QTS.

6.3. Nid oes un broses unigol ar gyfer gwneud cais i'r GTP. Mewn rhai achosion bydd yr ysgolion yn gweithredu fel y pwynt dethol cyntaf, gan leihau'r nifer o geisiadau trwy gyfweld ag ymgeiswyr, dilysu cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer addysgu. Nid yw'r nifer sy'n gwneud ceisiadau'n uniongyrchol i ysgolion yn hysbys, er y ceir sôn am rai ysgolion yn derbyn cymaint â 100 o geisiadau o pob lle. Mae dyddiadau terfyn ar gyfer gwneud cais yn dibynnu ar ddarparwyr penodol.

6.4. Mewn rhai achosion mae darparwyr GTP yn mynnu bod ymgeiswyr yn canfod lleoliad ysgol eu hunain ond mae rhai darparwyr yn fodlon canfod lleoliad iddynt. Dosbarthir y ddau ddull hwn o fynd ati'n weddol gyfartal.

6.5. Ceir proses wahanol ar gyfer ceisiadau SCITT sy'n dod trwy'r GTTR. Mae'r rheolau ymgeisio ar gyfer nifer y dewisiadau a'r dyddiadau yr un peth ag ar gyfer yr aelodau o'r cynllun sy'n brifysgolion a cholegau. Cyfwelir ag oddeutu 50% o'r ymgeiswyr, fel rheol ar ôl Ionawr; yn fynych mae cyfweliadau'n cynnwys gweithgarwch wedi'i seilio yn y dosbarth ac fel rheoli fe'u cynhelir mewn ysgolion.

6.6. Mae darparwyr GTP yn asesu ysgolion er mwyn sicrhau bod ganddynt y galluoedd digonol er mwyn cynnig yr hyfforddiant gofynnol, ond mae ganddynt reolau a dulliau gwahanol o fynd ati o ran yr ysgolion y byddant yn cydweithio gyda nhw. Er bod gan rai ohonynt set wedi'i diffinio o ysgolion sy'n bartneriaid, nid yw hyn yn wir am y rhan fwyaf.

6.7. Dyfyniadau

"Rwyf wedi dewis llwybr GTP yn y pen draw ond dim ond trwy lwc y llwyddais i'w ddilyn oherwydd nid oeddwn wedi deall y gallwn gyflwyno un cais i GTTR ond nifer o geisiadau GTP ar yr un pryd a chollais y rhan fwyaf o'r cyfnodau derbyn. Deallaf nad eich cyfrifoldeb chi yw hyn ond mae'n amlygu anawsterau wrth ddod o hyd i'r llwybr mwyaf addas i mewn i'r proffesiwn addysgu."

"Yn weddol aml roedd gofynion i gysylltu â nifer o sefydliadau academaidd ar gyfer llwybrau gwahanol i mewn i addysgu. Ychydig o wybodaeth a geir ynghylch manteision SCITT a GTP er enghraifft. Weithiau byddwch yn gwneud cais uniongyrchol i'r sefydliad, weithiau i GTTR, weithiau i'r ysgol – nid yw hyn yn gyson iawn."

"Mae pobl yn talu i wneud PGCE neu'n cael eu talu am wneud GTP ond yn fynych iawn mae ganddynt yr un cymwysterau ar y diwedd gan fod llawer yn cynnig PGCEs yn y systemau SCITT a GTP!"

7. Nid yw gwybodaeth ynghylch y llwybrau a'r dewisiadau ar gael i gyd yn yr un lle a gall fod yn anodd ei gaffael.

7.1. Gall cynnwys a sut y darparir cwrs amrywio rhwng llwybrau, cyrsiau a sefydliadau. Mae angen i ymgeiswyr benderfynu p'un ai oes yn well ganddynt gwrs wedi'i seilio ar brifysgol/goleg neu ysgol. Os yw'n well ganddynt gwrs wedi'i seilio ar ysgol, mae angen iddynt benderfynu p'un ai ydynt yn dymuno neu angen iddo fod yn un gyda thâl. Yna mae'n rhaid iddynt benderfynu p'un ai i wneud cais am PGCE neu GTP neu'r ddau a dewis eu prifysgolion, colegau ac ysgolion.

7.2. Mae gwefan y TDA yn darparu adnodd gwerthfawr wrth ddod â gwybodaeth ynghyd ynghylch dewisiadau hyfforddiant athrawon ac mae'r Llinell Gwybodaeth Addysgu (TIL) yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr arfaethedig siarad â'r TDA ynghylch unrhyw agwedd ar hyfforddiant a datblygiad athrawon.

7.3. Fodd bynnag, mae'r cymhlethdodau rhwng y llwybrau gwahanol, a'r rhaglenni o fewn llwybrau, yn ei gwneud yn anodd i ymgeiswyr gael gafael ar yr wybodaeth y maent ei hangen ac i wneud cymariaethau rhwng cyrsiau. Ceir, yn ogystal, ddiffyg cysondeb rhwng y prosesau a'r gofynion ar gyfer llwybrau gwahanol sy'n creu dryswch. Ar gyfer cyrsiau GTP, er enghraifft, mae gan bob darparwr ei drefniadau a'i ddyddiadau ei hun o ran dyddiadau terfyn ar gyfer ceisiadau; weithiau cynhelir ail gystadleuaeth o fewn y flwyddyn os na lenwyd y lleoedd.

7.4. Nid yw gofynion gwahanol y nifer fawr o ddewisiadau'n eglur i ymgeiswyr a theimlant bod ganddynt fynediad cyfyngedig i gyngor. O'r nifer fawr o ddewisiadau sydd ar gael, mae ymgeiswyr yn ei chael yn anodd i weithio allan pa gwrs yw'r un mwyaf addas iddynt fedru meithrin eu sgiliau a gwireddu eu huchelgeisiau. Bydd cyflwyniad cynlluniedig 'School Direct' yn rhoi pwyslais pellach ar bwysigrwydd casglu gwybodaeth yn yr un lle.

7.5. Dyfyniadau

"Mae gormod o brosesau i fynd drwyddynt er mwyn caffael yr wybodaeth angenrheidiol. Byddai'n haws pe bai'r holl lwybrau i mewn i addysgu'n cael eu harddangos mewn un man."

"I ddechrau, roeddwn i eisiau gwneud GTP. Yn anffodus roedd ysgrifennu at bob ysgol bosibl yn broses hynod lafurus gyda llawer o ymchwil ynghlwm wrthi. Byddai wedi bod o gymorth pe bai gan GTTR gronfa o ysgolion sy'n barod ar gyfer GTP. Byddai hyn wedi cyfyngu cryn dipyn ar fy ngwaith chwilio a gwneud y broses yn llai dychrynllyd o anodd."

"Rhaid i chi wybod ymhle i chwilio neu glywed am gynlluniau fel Teach First neu SCITTs trwy ffrind. Dylai prifysgolion gynnig pecyn o'r enw "Diddordeb mewn Addysgu," neu rywbeth tebyg fel bod myfyrwyr yn gwybod am yr holl ddewisiadau a'r gofynion."

8. Mae'r amser a gymerir yn gyffredinol gan ddarparwyr i ddod i benderfyniadau'n rhy hir ac mae'n brofiad anfoddhaol i ymgeiswyr.

8.1. Mae dethol ymgeiswyr gyda'r sgiliau a'r nodweddion cywir ar gyfer addysgu yn allweddol a cheir nifer o elfennau pwysig yn y gwaith o benderfynu a all wneud y broses yn un hirfaith. Tra gellir deall hyn o safbwynt sefydliadol, credai llawer o ymgeiswyr ei fod yn araf, o'i gymharu â'u profiad o ddilyniannau eraill.

8.2. Fel y dengys y tabl isod, gall ymgeiswyr aros am gyfartaledd o dros 60 diwrnod[1] i dderbyn cynnig diamod a bron i 50 diwrnod[1] cyn clywed bod cwrs yn llawn neu y bu eu cais yn aflwyddiannus.

Tabl 1: Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gofnodi penderfyniadau yn ystod y cylch derbyn GTTR 2010[2]

Penderfyniad	Diwrnod
Gwrthodwyd oherwydd diffyg	70.2
Tynnwyd yn ôl	70.1
Ataliwyd	69.7
Diamod	61.5
Amodol	58.7
Cwrs yn llawn/wedi'i dynnu nôl	48.3
Gwrthodwyd	47.4
Heb fod yn gymwys	46.8
Caewyd y cwrs	43.6

8.3. Mae dethol yr ymgeiswyr cywir ar gyfer y proffesiwn addysgu'n broses hollbwysig a rhaid i hyn barhau i fod yn drwyadl. Ni all llwyddiant academaidd fod yr unig faen prawf wrth ddethol a rhaid i ddarparwyr fod yn fodlon bod gan ymgeiswyr y priodoleddau a'r doniau personol cywir i'w gwneud yn athrawon effeithiol. Gellir cyflawni asesiad trwyadl o sgiliau rhyng-bersonol yn unig trwy broses ag iddi nifer o gamau sy'n cynnwys cyfweld â phob ymgeisydd. Mae hyn yn llafurus ac yn fynych bydd yn cynnwys staff nad ydynt yn weithwyr prifysgol/coleg/darparwyr SCITT; dyma'r cyfrannwr pwysicaf at hyd y broses o benderfynu.

8.4. Mae'n hanfodol, yn ogystal, fod gan athrawon arfaethedig y lefel gywir o lythrennedd a rhifedd, a dyna pam fod profion mewn llythrennedd a rhifedd yn rhan o'r broses. Hyd yma, eisteddwyd y profion hyn ar ôl cael derbyniad i gwrs hyfforddiant i athrawon, felly nid ydynt yn ddull effeithiol o sgrinio ymgeiswyr sy'n anaddas ar gyfer hyfforddiant i athrawon. Yn ddarostyngedig i benderfyniadau terfynol ynghylch amseru, bwriad datganedig y Llywodraeth yw i'r profion hyn gael eu cynnal cyn gwneud cais a'u bod yn dyfod yn un o'r gofynion mynediad i gwrs. Os na chaiff hyn ei alino'n gywir gyda'r system derbyn, gallai arafu'r broses ymhellach.

1 Mae amseroedd penderfynu cyfartalog yn cynnwys penderfyniadau 'atal'.
2 Data UCAS ar gyfer blwyddyn mynediad 2010.

8.5. Dyfyniadau

"Mae'n cymryd gormod o amser i dderbyn penderfyniadau i gyflwyno un dewis ar y tro a chael cyfle teg o ennill lle yn ddiweddarach."

"Rwyf yn ddig dros ben bod fy newis cyntaf wedi cymryd pedwar mis i'm gwrthod i heb gyfweliad hyd yn oed!!"

"Golygodd yr oes a gymerodd fy newis cyntaf i benderfynu ar fy nghais fod fy holl ddewisiadau eraill wedi cau erbyn iddynt fy ngwrthod. Rwy'n annhebygol nawr o fynd i'r brifysgol ym mis Medi ac rwyf wedi talu £17 am ddim."

"Roedd y broses GTTR yn gofyn bod gennych nerfau dur – cymerodd fy newis cyntaf fisoedd i gynnig lle i mi a chroesodd fy meddwl y byddai'n well i mi dynnu fy nghais nôl oddi wrthynt a rhoi cynnig ar fy ail ddewis cyn iddynt lenwi eu lleoedd nhw a'm gadael i heb ddim byd."

9. Trwy broses ddilyniannol gyfredol GTTR o wneud cais, yn aml ni chaiff oddeutu 50% o ymgeiswyr eu hystyried gan ddarparwr eu hail ddewis oherwydd eu bod yn llawn pan dderbynnir y penderfyniadau ynghylch dewis cyntaf ymgeiswyr.

9.1. Yn 2010, llwyddodd 64% o ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer hyfforddiant uwchraddedig i athrawon i gael lle ar eu dewis cyntaf o gwrs.

9.2. Fodd bynnag, gan fod ceisiadau GTTR yn cael eu hanfon at un darparwr ar y tro, nad yw llawer o ymgeiswyr, sy'n methu â chael lle yn eu dewis cyntaf yn cael eu hystyried gan ddarparwyr pellach oherwydd llenwyd y lleoedd i gyd.

Graff 1: Ymraniad yr ymgeiswyr a enillodd le ar eu cyrsiau dewis cyntaf, ail, trydydd neu bedwerydd, neu drwy'r broses 'Dewisiadau newydd', Extra neu Clearing



9.3. O ddata ymgeiswyr ar gyfer 2010 gwyddom fod:

- 60,949 o geisiadau wedi'u gwneud yn ystod prif ran y cylch GTTR
- 8,649 o ymgeiswyr wedi gwneud cais i ddewis sengl; gwnaeth y lleill i gyd gais am o leiaf ddau ddewis
- 20,094 o ymgeiswyr wedi derbyn cynigion ac o'r rhain cafodd 16,612 le yn y pen draw
- y 3,482 o ymgeiswyr a oedd ar ôl naill ai'n aflwyddiannus o ran bodloni amodau eu cynigion neu efallai eu bod wedi tynnu nôl yn ddiweddarach yn y cylch oherwydd amgylchiadau personol
- 32,206 o ymgeiswyr wedi ceisio symud ymlaen i'w hail ddewis
- 16,289 o ymgeiswyr wedi derbyn penderfyniadau bod y cwrs wedi cau neu roedd y cwrs yn llawn/wedi'i dynnu nôl.

9.4. Golyga hyn fod ychydig dros 50% o ymgeiswyr na chawsant le yn eu dewis cyntaf wedi methu â chael lle yn eu hail ddewis oherwydd nid oedd y dewis hwnnw ar gael.[3]

9.5. Dyfyniadau

"Dylai fod yn bosibl i chi wneud cais i nifer o ddarparwyr ac ateb trwy dderbyniad i bwy bynnag sy'n ymateb gyflymaf; ar hyn o bryd os yw eich dewis cyntaf yn cymryd amser maith i ateb gallwch golli eich lle yn eich ail ddewis wrth aros am y dewis cyntaf."

"Siomwyd fi gan yr amser a gymerodd fy newis cyntaf i roi penderfyniad i mi ynghylch fy nghyfweliad. Effeithiodd hyn ar weddill fy nghais GTTR oherwydd erbyn iddynt ateb, roedd fy mhrifysgol ail ddewis eisoes wedi dyrannu eu holl leoedd nhw."

"Mae angen i GTTR fod yn fwy hyblyg. Roeddwn yn ansicr ymhle fyddai fy mhartner a'm teulu ym mis Medi felly byddai'n well gen i fod wedi medru gwneud cais i ddau sefydliad. Roedd yn rhaid i mi ddyfalu ble'r oeddwn i'n fwy tebygol o fod ym mis Medi, a dewisais y ddinas anghywir ac o ganlyniad roedd yn rhaid i mi dynnu nôl o le PGCE."

"Yn fy marn i, dylai fy nghais fod wedi cael ei anfon i'r pedwar sefydliad ar yr un pryd, fel gwneud cais am gwrs israddedig. Bu bron i'r oediad, a achoswyd gan aros i un sefydliad ddod i benderfyniad cyn ei anfon ymlaen, gostio lle i mi."

Darparwyr

10. Mae gan ddarparwyr ddiffyg gweledd dros faint o geisiadau a wneir ar draws llwybrau ITT gwahanol gan un ymgeisydd, sy'n ei gwneud yn heriol i reoli niferoedd terfynol.

10.1. Ar hyn o bryd rhaid i ddarparwr reoli ceisiadau mewn amgylchfyd cymhleth. Gall ymgeiswyr wneud cais trwy gyfrwng mwy nag un llwybr ar y tro, ac os ydynt yn gwneud ceisiadau o fewn y llwybr GTP, gallant wneud cynifer o geisiadau ag y dymunant ar yr un pryd. Nid yw darparwyr yn gallu gweld ceisiadau eraill a wneir gan ymgeisydd a gall ymgeiswyr ddal lle trwy'r GTTR ac, o bosib, sawl lle GTP.

10.2. O ganlyniad, nid yw darparwyr yn gwybod beth fedrai ymgeiswyr ei wneud mewn perthynas â'r lleoedd maent yn eu dal. Yn ymarferol, mae rhai ohonynt yn tynnu nôl yn hwyr neu'n methu ag ymddangos ar y cwrs. Gall hyn gael ei waethygu gan y fframweithiau amser gwahanol a chan y ffaith bod rhai cyfleoedd yn daledig a rhai ohonynt ddim. Mae'n hysbys fod rhai ymgeiswyr yn gwrthod lle ar gwrs GTTR er mwyn cymryd lle GTP â thâl, sy'n achosi lleoedd gwag annisgwyl ar raglenni PGCE yn hwyr yn y cylch.

3 Data UCAS ar gyfer blwyddyn mynediad 2010.

11. Rhaid i ddarparwr sy'n cynnig mwy nag un llwybr ITT weithio gyda systemau ymgeisio amryfal a all fod yn aneffeithlon.

11.1. Mae rhai darparwyr prifysgol a choleg yn cynnig cyrsiau PGCE a GTP. Bydd llawer, yn ogystal, yn cynnig cyrsiau ITT israddedig, y trefnir mynediad iddynt trwy gynllun cyffredinol UCAS ar gyfer derbyniadau israddedig. Golyga hyn y gall fod yn rhaid i'r un swyddfeydd a thiwtoriaid derbyn weinyddu cynifer â thair proses wahanol iawn er mwyn penderfynu pa ymgeiswyr yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer gyrfa mewn addysgu. Yn achos y PGCE a'r GTP, gallant hyd yn oed fod yn prosesu ceisiadau gwahanol oddi wrth yr un ymgeisydd.

Er nad ydynt yn ymwneud â'r broses o ddethol ar gyfer cyrsiau SCITT, bydd prifysgolion a cholegau'n cymeradwyo rhaglenni consortia SCITT ar gyfer dyfarnu'r PGCE.

Adran III

12. Cynigion ar gyfer diwygio

12.1. Eglurodd Strategaeth Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yr Adran Addysg[4] a gyhoeddwyd ym Mehefin 2011 a'r Cynllun gweithredu dilynol a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011, bod y Llywodraeth yn dymuno bod y broses o wneud cais am hyfforddiant uwchraddedig i athrawon yn haws ac yn symlach.

12.2. Cynigiodd yr adroddiad y dylid caffael gwybodaeth ynghylch system sengl ar gyfer ceisiadau i bob cwrs, a fyddai'n cynnwys, yn ogystal, profion llythrennedd a rhifedd cychwynnol a'i gwneud yn bosibl i wneud pob cais i gyrsiau PGCE a GTP fel ei gilydd ar yr un ffurflen gais.

12.3. Fel rhan o'r Arolwg o'r Broses o Dderbyn, bu UCAS yn gweithio gyda'r TDA a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu ymarferoldeb darparu gwasanaeth derbyn wedi'i ganoli ar gyfer pob llwybr hyfforddiant cychwynnol uwchraddedig i athrawon trwy UCAS. Cynllunnir newidiadau, yn ogystal, a fydd yn golygu y bydd angen systemau newydd. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi, o fis Medi 2012, mai dim ond y rheiny sydd wedi llwyddo mewn profion llythrennedd a rhifedd fydd yn gallu cael mynediad i hyfforddiant cychwynnol i athrawon; a bwriedir i lwybr newydd ddechrau ar unwaith er mwyn i rai ysgolion dderbyn ceisiadau'n uniongyrchol ar gyfer lleoedd hyfforddi y gallant eu noddi.

12.4. Yr argymhelliad pwysicaf yw y dylid darparu system a phroses sengl o dderbyn ar gyfer hyfforddiant uwchraddedig i athrawon a fyddai o fudd i ymgeiswyr sy'n gwneud cais trwy'r GTTR ac am raglenni GTP ac a fyddai'n atal darparwyr rhag gorfod gweithio gyda systemau amryfal. Mae'r model a gynigir yn hyblyg iawn a gall ymaddasu i unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol o du'r Llywodraeth mewn perthynas â newidiadau i'r GTP.

12.5. Disgwylir y byddai'r model busnes yr un peth ag a ddefnyddir ar hyn o bryd er mwyn cefnogi'r GTTR ar y cyflwyniad o 'School Direct'.

12.6. Y dyddiad gweithredu a gynigir yw blwyddyn mynediad 2014. Os derbynnir y cynigion, cynhyrchir cynllun gweithredu manwl.

12.7. Cwestiynau

12.7.1. Beth yw'r manteision posibl o broses sengl o dderbyn ar gyfer cyrsiau GTTR a GTP?

12.7.2. Beth yw'r anfanteision posibl o broses sengl o dderbyn ar gyfer cyrsiau GTTR a GTP?

13. Gwelliannau dros dro

13.1. Mae'r TDA eisoes wedi gwneud gwelliannau i'r broses o wneud cais am GTP ar gyfer Gorffennaf 2011. Bydd y rhain yn gwella'r broses yn y tymor byr ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyrsiau GTP ond ni fydd yn diwygio'r broses yn sylfaenol ar gyfer pob ymgeisydd am hyfforddiant uwchraddedig i athrawon.

4 Hyfforddi ein cenhedlaeth nesaf o athrawon rhagorol – Strategaeth gwella i'w thrafod, Mehefin 2011, yr Adran Addysg

14. Proses sengl o dderbyn ar gyfer hyfforddiant cychwynnol uwchraddedig i athrawon

Ffigur 1: Model i'w weithredu yn 2014



14.1. Nodweddion allweddol y system a gynigir yw y byddai'n:

- **fwy effeithlon**, gan ei gwneud yn bosibl i gael dyddiadau terfyn mwy eglur a chyfnod gweithdroi mwy cyson
- rhoi **profiad cyffredinol gwell** i ymgeiswyr trwy gynnig mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt a darparu porth canolog sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y maent ei hangen
- rhoi mwy o **gynhorthwy i'r ystod lawn o ddarparwyr**.

Bod yn fwy effeithlon

14.2. Bydd system ymgeisio sengl yn bodoli gyda'r gallu gweithredol i drosglwyddo data ymgeisio i ddarparwyr.

Cynnig profiad cyffredinol gwell i ymgeiswyr

14.3. Byddai porth sengl yn bodoli er mwyn cyrchu gwybodaeth er mwyn i ymgeiswyr fedru cyrchu'r holl wybodaeth hon yn yr un lle. Byddai hyn yn cynnwys:

- gallu gweithredol wedi'i ganoli i chwilio am gyrsiau
- cyngor a chyfarwyddyd clir i ymgeiswyr
- gwybodaeth ynghylch p'un ai oes yn rhaid i ymgeiswyr GTP ganfod lleoliad ysgol drostynt eu hunain.

14.4. Byddai ffurflen gais sengl ar gyfer cyrsiau GTP a GTTR.

14.5. Byddai UCAS yn darparu cynhorthwy er mwyn i ddarparwyr symleiddio'r broses asesu a lleihau'r amser penderfynu.

14.6. Byddai ceisiadau cychwynnol cyfochrog ar gyfer GTTR a GTP yn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer uchafswm o bedwar dewis ar yr un pryd.

14.7. Bydd UCAS yn ystyried darparu system wedi'i chanoli ar gyfer amserlennu cyfweliadau a derbyn; os cyflwynir y system hon, dylai leihau'r gwaith gweinyddu ar gyfer darparwyr a lleihau straen y broses ar gyfer ymgeiswyr.

14.8. Cwestiynau

14.8.1. Bydd nodweddion y system ceisiadau sengl yn sicrhau profiad cyffredinol gwell ar gyfer ymgeiswyr. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?

14.8.2. Pa nodweddion y gellir eu cynnwys o fewn y broses sengl o dderbyn er mwyn cefnogi ymgeiswyr wrth iddynt ddethol y llwybrau addas i mewn i addysgu?

Rhoi mwy o gynhorthwy i'r ystod lawn o ddarparwyr

14.9. Byddai tryloywder yn bodoli ar gyfer darparwyr ynghylch y nifer o geisiadau a wneir am fathau gwahanol o gyrsiau a statws y ceisiadau hynny.

14.10. Byddai pob cais am gyrsiau PGCE a GTP yn cael eu dilysu a'u gwirio'n awtomatig, gyda brasluniau gyrfa yn cael eu sgrinio am fylchau a llên-ladrad.

14.11. Byddai data a gofnodwyd o flaen llaw yn gynharach yn y broses o wneud cais yn symleiddio'r broses o wirio gan y CRB.

14.12. Gallai UCAS ddarparu cynhorthwy ar gyfer darparwyr trwy ddarparu system amserlennu cyfweliadau a phroses derbyn ddewisol wedi'u canoli, gan gynnwys gadael i ymgeiswyr weld argaeledd dyddiadau cyfweld a'r gallu i archebu cyfweliadau.

14.13. Yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r llywodraeth, byddai'r system newydd yn sicrhau y trefnir bod canlyniadau profion llythrennedd a rhifedd cyn-derbyn ymgeiswyr ar gael i ddarparwyr.

14.14. Fel rhan o'r arolwg o bob proses derbyn, bydd UCAS yn darparu systemau gwell, er enghraifft mewn perthynas â pharu TGAU, casglu dogfennau electronig ac ansawdd data.

14.15. Cwestiynau

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

14.15.1. Byddai ffurflen gais sengl yn gallu rhoi'r holl wybodaeth y maent ei hangen i ddarparwyr gwahanol.

14.15.2. Byddai medru gweld canlyniadau profion o fudd i ddarparwyr.

14.15.3. Byddai'r cyfleuster wedi'i ganoli i gynllunio cyfweliadau yn helpu effeithlonrwydd ac o gymorth i symleiddio'r broses.

14.15.4. Gellid rhoi paratoadau digonol ar waith yn fy sefydliad i er mwyn symud at broses sengl o dderbyn ar gyfer blwyddyn mynediad 2014.

Hoffem glywed eich syniadau

14.15.5. Ar gyfer cyrsiau wedi'u seilio ar ysgolion, sut gallai UCAS gynnwys prosesau ymgeisio sy'n bodloni anghenion y darparwyr a'r ysgolion?

15. Amserlen y broses

15.1. Byddai dau gyfle i Ymgeisio: y teitlau gweithiol yw Ymgeisio 1 ac Ymgeisio 2.

Ymgeisio 1

15.2. Nodwedd arbennig Ymgeisio 1 yw y gallai ymgeiswyr gael eu hystyried gan gynifer â phedwar darparwr ar yr un pryd. Cawsai hyn wared ar y rhwystredigaeth a fynegir gan ymgeiswyr cyfredol na chânt mo'u hystyried gan bob un o'u dewisiadau.

15.3. Byddai UCAS yn agor Ymgeisio 1 ar gyfer ceisiadau PGCE a GTP yn y mis Tachwedd cyn y flwyddyn mynediad. Byddai hyn yn symleiddio'r broses drwy ei symud yn agosach at y dyddiad pryd fydd y TDA'n dyrannu lleoedd.

15.4. Yn Ymgeisio 1 gallai ymgeiswyr wneud hyd at uchafswm o bedwar dewis, gan gynnwys hyd at ddau ddewis GTP a hyd at ddau ddewis PGCE yn gyfochrog trwy borth ymgeisio cyffredin a chais sengl ar-lein.

15.5. Byddai gan yr ymgeisydd bedwar dewis ni waeth ym mha bwynt y maent yn mynd i mewn i Ymgeisio 1 a gallant wneud cais am hyd at ddau gwrs GTP a dau gwrs PGCE. Nid oes yn rhaid gwneud y dewisiadau hyn i gyd ar yr un pryd; fodd bynnag gallai'r dull o wneud y dewisiadau effeithio ar y pwynt pryd mae'n rhaid i'r ymgeisydd ateb cynigion.

15.6. Cydnabyddir bod gan y llwybrau PGCE a'r rhai a seilir ar gyflogwyr nodweddion gwahanol ac maent yn bodloni anghenion mathau gwahanol o athrawon arfaethedig. Ni fyddai'n rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio eu pedwar dewis ac ni fyddai'n rhaid iddynt wneud cais am gyrsiau PGCE a rhai GTP, ond gallent ddewis gwneud hynny.

15.7. Byddai ceisiadau'n ddilys yn unig ar gyfer cyrsiau sy'n agored pryd gwneir y cais; nid yw rhai rhaglenni'n agor tan ganol y cylch. Byddai'r wybodaeth hon ar gael ar y porth gwybodaeth canolog.

15.8. Er mwyn cydnabod eu gwahanolrwydd, cawsai dewisiadau PGCE a GTP eu trin fel dau ddosbarth gwahanol o gais. Os bu ymgeisydd yn aflwyddiannus ar gyfer y ddau ddewis yn y naill ddosbarth neu'r llall, gallai ef neu hi fynd i Ymgeisio 2.

Ymgeisio 2

15.9. Cawsai Ymgeisio 2 ei wahaniaethu oddi wrth Ymgeisio 1, drwy'r ffaith y byddai ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am un cwrs yn unig ar y tro.

15.10. Yn Ymgeisio 2 gallai ymgeiswyr wneud cais am un cwrs ar y tro ble mae lleoedd gwag yn dal i fodoli. Ni all ymgeiswyr fynd i mewn i Ymgeisio 1 yr eildro os ydynt eisoes wedi defnyddio pob un o'u pedwar dewis.

15.11. Ni fyddai dyddiad cychwyn sengl ar gyfer Ymgeisio 2, ond byddai mynediad yn dibynnu ar ble mae'r ymgeisydd unigol yn y broses.

15.12. Ni fyddai Clearing yn bodoli mwyach a byddai Ymgeisio 1 ac Ymgeisio 2 yn agored hyd at ddiwedd Hydref yn y flwyddyn mynediad. Ni fyddai dyddiad terfyn ar wahân ar gyfer ceisiadau cynradd.

15.13. Cwestiynau

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?
15.13.1. Byddai'n welliant i ymgeiswyr pe caniateid ceisiadau cyfochrog yn Ymgeisio 1.
15.13.2. Byddai'n welliant i ddarparwyr pe caniateid ceisiadau cyfochrog yn Ymgeisio 1.
15.13.3. Gwneud ceisiadau dilyniannol yw'r dull gorau i ymgeiswyr fynd ati ar gyfer Ymgeisio 2.
15.13.4. Gwneud ceisiadau dilyniannol yw'r dull gorau i ddarparwyr fynd ati ar gyfer Ymgeisio 2.

Beth yw eich barn chi?

15.13.5. Beth yw eich barn chi ynghylch pedwar dewis yn Ymgeisio 1, uchafswm o ddau gwrs PGCE a dau gwrs GTP?
15.13.6. A fydd hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd a dewis i ymgeiswyr?

16. Ymatebion

Darparwyr

16.1. Os nad yw cwrs GTP wedi agor eto pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno cais, byddai'r ymgeisydd yn cael gwybod am hyn a byddai'n derbyn y dyddiad pryd fyddai'r ceisiadau ar agor, yn ddarostyngedig i ddarparwyr yn trefnu bod yr wybodaeth hon ar gael.

16.2. Ar gyfer **pob** cais a wneir cyn diwedd Mehefin byddai'n rhaid i ddarparwyr ddod i benderfyniad o fewn 35 diwrnod gwaith o dderbyn y cais. Cawsai'r amserlen hon ei chefnogi gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA).

16.3. Byddai gan ddarparwr sy'n derbyn ceisiadau ar ôl diwedd Mehefin er mwyn cychwyn cwrs yn yr un flwyddyn Gytundeb Lefel Gwasanaeth byrrach ar gyfer penderfynu.

16.4. Cawsai'r cyfleuster Atal ei ddefnyddio er mwyn ymdrin ag achosion eithriadol yn unig, er enghraifft ymgeisydd sy'n methu â dod i gyfweliad oherwydd salwch, a byddai'r amser a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â materion o'r fath yn cael ei gwtogi.

16.5. Byddai'r holl ddarparwyr yn medru gweld cynigion sy'n cael eu dal gan ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau PGCE a GTP. Golyga hyn y gallent gyrchu gwybodaeth ynghylch:

- pob cais a wnaethpwyd gan ymgeisydd
- statws pob cais.

Ymgeiswyr

16.6. Byddai ymgeiswyr yn gallu gweld y broses yn ogystal, ac yn ystod y 35 diwrnod gwaith gallent ddilyn trywydd unrhyw gynnydd a wnaed gan eu ceisiadau.

16.7. Byddai'n rhaid i ymgeiswyr ateb cynigion o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad ar eu llythyrau cynnig. Cawsai'r raddfa amser hon ei chefnogi gan SLA. Y dewisiadau a fyddai ganddynt yw Gwrthod, Derbyniad pendant neu Dal dros dro os ydynt yn aros am benderfyniadau eraill.

16.8 Yn Ymgeisio 1 gallai ymgeisydd ddal hyd at dri chynnig fel rhai dros dro. Byddai ganddynt 45 diwrnod gwaith o gyflwyno'r cais cyntaf (35 diwrnod gwaith ar gyfer penderfyniad y darparwr a 10 diwrnod gwaith ar gyfer eu hateb nhw) i dderbyn un cynnig fel un pendant. Rhaid gwrthod pob cynnig arall bryd hynny. Byddai'r un cyfnod 45 diwrnod gwaith hwn yn dal yn gymwys hyd yn oed ar gyfer unrhyw ddewisiadau a allant gael eu hychwanegu ar ôl cyflwyno'r cais gwreiddiol.

16.9. Ar ddiwedd y 45 diwrnod gwaith cawsai nodyn atgoffa ei anfon at ymgeiswyr gyda chyfnod oediad o bum diwrnod gwaith. Ar ôl hyn ystyrid yn awtomatig bod unrhyw gynigion na dderbyniwyd ateb yn eu cylch wedi cael eu gwrthod.

16.10. Unwaith cafwyd Derbyniad pendant o gynnig, os dymunai ymgeisydd wneud cais pellach, er enghraifft i gwrs GTP a agorodd yn hwyrach yn y cylch, rhaid iddo ef neu hi, yn gyntaf, wrthod y lle sy'n cael ei ddal.

16.11. Cwestiynau

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?
16.11.1. Mae cyfnod ymateb o 35 diwrnod gwaith oddi wrth ddarparwyr yn parhau i fod yn rhy hir.
16.11.2. Byddai cyfnod ymateb o 10 diwrnod gwaith oddi wrth ymgeiswyr yn dderbyniol.
16.11.3. Mae'n iawn rhoi 45 diwrnod gwaith i ymgeiswyr o gyflwyniad cychwynnol cais i dderbyn cynnig yn bendant.
16.11.4. Byddai'n anodd lleihau'r defnydd a wneir o benderfyniadau Atal a'r amser a gymerir er mwyn mynd i'r afael â'r mater a wnaeth y penderfyniad Atal yn angenrheidiol.
16.11.5. Byddai o gymorth i ddarparwyr fedru gweld pob cais.
16.11.6. Byddai system gweinyddu wedi'i chanoli ar gyfer cyfweliadau'n symleiddio'r broses er mwyn helpu darparwyr i gwrdd â dyddiadau terfyn.

Hoffem glywed eich syniadau

16.11.7. Os bydd y system sengl o dderbyn yn arwain at ddarparwyr wedi'u seilio mewn ysgolion yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag o'r blaen, pa fesurau sydd angen iddynt fod yn eu lle er mwyn cyfyngu ar hyn neu i'w helpu i reoli'r cynnydd mewn niferoedd?
16.11.8. Os oes gan ddarparwyr gyfnodau ymgeisio gwahanol iawn, sut byddai'r sector yn rheoli'r broses o roi'r wedd derfynol ar niferoedd y myfyrwyr?

17. Buddion allweddol y newidiadau arfaethedig

17.1. Profiad cyson a gwell i'r ymgeisydd o ganlyniad i broses sengl o ymgeisio.

17.2. Mwy o ddewis i ymgeiswyr gydag un ceisiad ar gyfer hyd at bedwar dewis, gan gynnwys cyrsiau PGCE a GTP yn cael eu hystyried ar yr un pryd.

17.3. Mwy o degwch oherwydd bod ceisiadau ar gyfer hyd at bedwar dewis yn cael eu hystyried yn yr un cyfnod a bydd ymgeiswyr yn gwybod canlyniad eu holl geisiadau cyn gorfod dod i benderfyniad terfynol.

17.4. Llai o bwysau ar ymgeiswyr i wneud 'ceisiadau strategol' yn y gobaith y bydd hyn yn gwella eu tebygolrwydd o ennill lle.

17.5. Derbynnir penderfyniadau cynnar trwy fyrhau'r broses derfynol o benderfynu.

17.6. Mwy o dryloywder ynghylch cynigion ymgeiswyr a'u derbyniadau ar gyfer darparwyr.

17.7. Darparwyr yn gallu dethol o garfan ehangach o ymgeiswyr o safon uchel.

17.8. Gwelliannau effeithlonrwydd prosesau ar gyfer darparwyr trwy brofion asesu wedi'u canoli, amserlennu cyfweliadau a dilysiadau neu wiriadau er mwyn cefnogi penderfyniadau a wneir.

17.9. Cwestiynau

17.9.1.Mae'r Llywodraeth wedi gofyn am broses ymgeisio symlach ar gyfer hyfforddi athrawon. A yw'r cynnig hwn am broses ymgeisio sengl yn cyflawni hyn?
17.9.2.Os nad yw, sut gellid symleiddio'r broses o wneud cais am hyfforddiant i athrawon?
17.9.3.A fyddai'r system sengl yn gallu paru ymgeiswyr â chyrsiau'n well a chaffael ymgeiswyr o safon uwch?
17.9.4.Yn gyffredinol, a fyddech chi'n hapus i weld y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu dwyn ymlaen ar gyfer 2014?

Adran IV

18. Geirfa

Gwrthod
Caiff y cynnig ei wrthod gan yr ymgeisydd.

Derbyniad pendant
Mae'r ymgeisydd yn derbyn y cynnig y maent yn dymuno ei gymryd.

GTP
Y Rhaglen Athrawon Graddedig. Rhaglen yng Nghymru a Lloegr ar gyfer graddedigion sy'n dymuno ennill statws athro cymwys wrth weithio fel athro heb gymhwyster.

GTTR
Y Gofrestrfa Hyfforddi Athrawon Graddedig. Y broses a reolir gan UCAS a ddefnyddir ar hyn o bryd er mwyn ymgeisio am y rhan fwyaf o gyrsiau ITT uwchraddedig.

Dal dros dro
Nid yw'r ymgeisydd wedi dod i benderfyniad eto ynghylch y cynnig hwn oherwydd eu bod yn parhau i aros am benderfyniadau o ddewisiadau eraill.

ITT
Pob cwrs sy'n arwain at gymhwyster addysgu ac/neu i statws athro cymwys. Gellir astudio cyrsiau ar lefel israddedig neu uwchraddedig.

Ceisiadau cyfochrog
Gellir gwneud dau gais neu fwy ar yr un pryd.

PGCE
Y Dystysgrif Raddedig Uwchraddedig neu Broffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster academaidd yw hwn sy'n rhoi Statws Athro Cymwys yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

PGDE
Y Diploma Uwchraddedig mewn Addysg. Cymhwyster academaidd yw hwn sy'n rhoi'r Cymhwyster Addysgu (TQ) yn yr Alban.

Darparwyr
Sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant i athrawon; gall y rhain fod yn ysgolion (unigol neu gonsortia), colegau, prifysgolion, awdurdodau lleol neu gwmnïau preifat.

QTS
Statws Athro Cymwys; yr ardystiad sy'n ofynnol er mwyn addysgu mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

SCITT
Hyfforddiant cychwynnol i athrawon wedi'i seilio ar ysgolion; partneriaeth rhwng grŵp o ysgolion a phrifysgol neu goleg sy'n darparu model wedi'i seilio ar ysgol ar gyfer PGCEs.

Ceisiadau dilyniannol
Ceisiadau a wneir un ar y tro, ar ôl ei gilydd.

SLA
Yr amser cyflawni wedi'i gontractio ar gyfer perfformiad.

Atal
Y cyfleuster i ddal cais yn ôl am gyfnod oherwydd bod rhesymau'n bodoli pam na all gael ei symud ymlaen bryd hynny.

TDA
Yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion; yr asiantaeth genedlaethol a'r corff sector sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu'r gweithlu mewn ysgolion.

TQ
Cymhwyster Addysgu; yr ardystiad sy'n ofynnol er mwyn addysgu mewn ysgolion a gynhelir yn yr Alban.

Adran V

19. Sut i ymateb

19.1. Plannir holl gwestiynau'r ymgynghoriad ym mhrif gorff y testun yn yr adran y maent yn cyfeirio ati. Gobeithiwn y bydd hyn o gymorth i chi wrth i chi ystyried eich atebion.

19.2. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn www.gttr.ac.uk/aboutus/review ble gallwch ganfod cyfarwyddiadau llawn ynghylch sut i ymateb.

19.3. Dylid derbyn ymatebion erbyn 21 Mawrth 2012 fan bellaf.

19.4. Am fwy o wybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad ar y Broses Sengl o Dderbyn ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Uwchraddedig i Athrawon, ymwelwch, os gwelwch yn dda, â: www.gttr.ac.uk/aboutus/review neu anfonwch e-bost i: gttradmissionsprocessreview@ucas.ac.uk

19.5. Gallwch, yn ogystal, gysylltu â'r tîm neu ddychwelyd eich ymateb (erbyn 21 Mawrth 2012 fan bellaf) at:

Y Tîm APR
UCAS
Rosehill
New Barn Lane
Cheltenham
GL52 3LZ

gttr

Gofrestrfa Hyfforddi
Athrawon Graddedig

www.gttr.ac.uk